**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 21 Mawrth 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| J P Curtice | S J Gallagher | L James |
| Y V Jardine | E T Kirchner | |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Richard Davies | Cydlynydd Ardal Leol |
| Peter Field | Prif Swyddog - Ataliaeth, Lles a Chomisiynu |
| Jon Franklin | Arweinydd Tîm - Cydlynu Ardaloedd Lleol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Llesiant |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Tonks | Rheolwr Gweithredu CALI |
| Jo Veck | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Doyle, P R Hood-Williams, E J King, H M Morris a/ac G J Tanner

---

## 40 Election of Chair Pro-Tem.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd S J Gallagher yn Gadeirydd Dros Dro ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**(Bu'r Cynghorydd S J Gallagher (Cadeirydd) yn llywyddu)**

## 41 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 42 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflwyno a Datblygu Polisi Diogelu a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2018 fel cofnod cywir.

## 43 Cydlynu Ardaloedd Lleol. (Cyflwyniad)

Rhoddodd Jane Tonks, Jon Franklin, Richard Davies a Peter Field gyflwyniad ar Gydlynu Ardaloedd Lleol. Amlinellwyd mai Abertawe oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyflwyno Cydlynu Ardaloedd Lleol, a oedd yn rhan o'r agenda ataliol. Diben hyn oedd mynd i'r afael ag unigrwydd, arwahanrwydd a gwella iechyd a lles.

Roedd y manylion a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys: -

- Cydlynu Ardaloedd Lleol yn Abertawe
- Cydlynu Ardaloedd Lleol yn 2017
- Swydd Datblygu BGC
- Cydlynu Ardaloedd Lleol yn hwyr yn 2017
- Cydlynu Ardaloedd Lleol erbyn Ebrill 2018
- Cydlynwyr Ardaloedd Lleol 2018
- Ffynonellau arian

Cyflwynwyd ffilm fer i'r pwyllgor hefyd, a oedd yn amlinellu stori am fywyd go iawn preswylydd a oedd wedi derbyn help gan Gydlynydd Ardal Leol ac wedi dod yn rhan o grŵp cymunedol. Arweiniodd y newid at y preswylydd yn peidio ag ymweld â'i feddygfa'n wythnosol, gan felly wneud lles i'r GIG.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddogion ac atebwyd yn briodol iddynt. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Canlyniadau'r Cydlynu Ardaloedd Lleol gan gynnwys preswylwyr yn teimlo'n fwy gwerthfawr ac yn fwy o ran o'u cymunedau a'r llai o alw ar wasanaethau o ganlyniad i hyn;
- Ehangu gwasanaethau i ardaloedd nad oes ganddynt Gydlynwyr Ardaloedd Lleol ar hyn o bryd;
- Pwysleisio ar fanteision iechyd sy'n deillio o effaith gadarnhaol y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol.

**Penderfynwyd** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Cylchredeg y cyflwyniad i'r pwyllgor.

## 44 Adolygu Polisi Diogelu Corfforaethol. (Llafar)

Cyflwynodd Simon Jones, Arweinydd Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Llesiant, Bolisi Diogelu Plant ac Oedolion Corfforaethol Drafft Cyngor Abertawe i'w drafod.

Cyfeiriodd at y Fframwaith Polisi Diogelu Corfforaethol ac amlygodd y meysydd canlynol yn y ddogfen ddrafft: -

1) Llywodraethu diogel
2) Cyflogaeth ddiogel
3) Gweithlu diogel

4) Arfer diogel
5) Partneriaethau diogel
6) Llais diogel
7) Yr hyn y mae angen i Gyngor Abertawe ei gyflawni

Yn ychwanegol, darparodd fanylion y strwythur Llywodraethu Diogelu Corfforaethol.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth a ddarparwyd ac amlygwyd y canlynol: -

- Bod yn ymwybodol o sut i fwydo materion i'r system;
- Sut mae materion yn rhan o Raglen Waith y Strwythur Llywodraethu Diogelu Corfforaethol;
- Swyddogaethau grwpiau yn y Strwythur Diogelu Corfforaethol;
- Cyflwyno siart llif i symleiddio'r broses.

**Penderfynwyd** -

1) Nodi cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf;
2) Cyflwyno'r Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig i'r pwyllgor yn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu.

**45 Cynllun Gwaith 2017-2018.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2017-2018.

**Penderfynwyd**, yn amodol ar ychwanegu cofnod rhif 44 uchod, nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.00 pm

**Cadeirydd**